ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# Memorandwm Cydweithredu ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol Plant sy’n gweithio i Asiantaeth

# Addewid Cymru Gyfan

## Fersiwn 2

Mae arweinwyr Gwasanaethau Plant yn addo cydweithio mewn ffordd dryloyw i reoli’r gadwyn gyflenwi asiantaethau, gwella ansawdd staff asiantaeth a rheoleiddio cyfraddau tâl o fewn gwaith cymdeithasol plant.

Mae Addewid Cymru Gyfan yn rhan o raglen strategol ehangach ar gyfer y gweithlu sy'n ymateb i’r heriau sy’n codi wrth recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Plant a’u cadw.

Daeth yr Addewid gwreiddiol i rym ar 1 Mai 2023. Bydd y fersiwn ddiweddaraf hon yn dod i rym ar 1 Mai 2024.

# Cynnwys

**Adran 1 – Fframwaith Trosfwaol ........ 3**
Cyflwyniad ........ 3
Amcanion Addewid Cymru Gyfan ........ 3
Cwmpas ........ 3
  Gweithiwr Cymdeithasol ........ 3
  Uwch-ymarferydd / Rheolwr Tîm Cynorthwyol neu'r cywerth ........ 3
  Rheolwr Tîm ........ 3
Ymrwymiad i Addewid Cymru Gyfan ........ 4
Llywodraethu ........ 4
Y Tîm Adnoddau Canolog ........ 4
**Adran 2 – Egwyddorion Allweddol ........ 5**
Gweithredu Addewid Cymru Gyfan ........ 5
Talu Gweithwyr Cymdeithasol Plant sy'n gweithio i asiantaeth ........ 5
Gweithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso ........ 5
Gweithwyr prosiect ........ 5
Recriwtio staff parhaol ........ 6
Gwiriadau Cyn Aseinio ........ 6
  Geirda a rhestr wirio ar gyfer aseinio ........ 6
  Ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi ........ 6
Gwiriadau Perfformiad ac Ansawdd ........ 7
Cyfnod rhybudd i weithwyr asiantaeth ........ 7
**Rhannu data i wella datblygiad gweithlu'r dyfodol ........ 8**

**Adran 1 – Fframwaith Trosfwaol**

## Cyflwyniad

Mae arweinwyr Gwasanaethau Plant yn addo gweithio'n gydweithredol ac yn dryloyw i reoli'r gadwyn gyflenwi ar gyfer gweithwyr asiantaeth, gwella ansawdd staff asiantaeth a rheoleiddio cyfraddau tâl o fewn gwaith cymdeithasol plant.

Mae Addewid Cymru Gyfan yn rhoi sylw i amrywiaeth o heriau sy'n gysylltiedig â chyflenwi, ansawdd a chost wrth ddefnyddio Gweithwyr Cymdeithasol Plant sy’n gweithio i asiantaeth. Mae'n creu fframwaith y gall 22 Awdurdod Lleol Cymru ei ddefnyddio i ymateb ar y cyd i'r heriau hyn.

## Amcanion Addewid Cymru Gyfan

Amcanion yr addewid yw:

1. symleiddio a chysoni cyfraddau tâl asiantaethau recriwtio i weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol ledled Cymru. Bydd hyn yn:
   a) galluogi asiantaethau recriwtio i ddatblygu modelau busnes mwy cynaliadwy drwy gael mwy o sicrwydd am y cyfraddau tâl disgwyliedig;
   b) lleihau cyfradd y gweithwyr asiantaeth sy’n torri cysylltiad â sefydliad, sy'n ganlyniad i’r ystod o gyfraddau yn eu lle ar hyn o bryd;
2. lleihau nifer y Gweithwyr Cymdeithasol Plant sy'n symud o swyddi parhaol i rolau asiantaeth yng Nghymru;
3. pennu egwyddorion cenedlaethol ar gyfer hurio gweithwyr asiantaeth, gan gynnwys sut y cadarnheir geirda, er mwyn sicrhau ansawdd gweithwyr asiantaeth;
4. sicrhau bod asiantaethau yn cynnal safonau moesegol wrth recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol Plant.

## Cwmpas

Mae cwmpas Addewid Cymru Gyfan yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol Plant cofrestredig yn y categorïau canlynol:

**Gweithiwr Cymdeithasol**

Gweithiwr Cymdeithasol Plant cofrestredig sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau gwaith cymdeithasol cyffredinol o ddydd i ddydd.

**Uwch-ymarferydd / Rheolwr Tîm Cynorthwyol neu’r cywerth**

- Mae Uwch-ymarferydd yn Weithiwr Cymdeithasol Plant cofrestredig sy'n cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol Plant eraill gydag achosion ac yn rhoi arweiniad wrth reoli achosion.
- Gweithiwr Cymdeithasol Plant cofrestredig sydd â rhywfaint o gyfrifoldebau rheoli llinell / sy’n dirprwyo ar gyfer Rheolwr Tîm.

**Rheolwr Tîm**

Gweithiwr Cymdeithasol cofrestredig sy'n gyfrifol am reoli tîm gwaith cymdeithasol o ddydd i ddydd yn llawn.

Nid yw cwmpas yr Addewid Cymru Gyfan hwn yn cynnwys Timau o Weithwyr Cymdeithasol a Reolir.

## Ymrwymiad i Addewid Cymru Gyfan

Ymrwymodd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol o bob Awdurdod Lleol i Addewid Cymru Gyfan am gyfnod o flwyddyn, o 1 Mai 2023. Cafodd Addewid Cymru Gyfan ei hadolygu'n ffurfiol ym mis Ionawr 2024. Bydd y fersiwn ddiwygiedig hon yn dechrau o 1 Mai 2024.

Lle nad oes gan Awdurdod Lleol rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, yna gwnaed yr ymrwymiad hwn gan yr Uwch-swyddog cywerth sy'n gyfrifol am Wasanaethau Plant. Fodd bynnag, bydd y term "Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol" yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pob un sydd wedi llofnodi'r ddogfen hon.

Bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod Addewid Cymru Gyfan yn cael ei gweithredu o fewn eu Hawdurdod Lleol, yn ogystal â dwyn ei gilydd i gyfrif os na chedwir at yr egwyddorion neu'r cyfraddau y cytunwyd arnynt. Bydd hyn yn cael ei wneud yn ysbryd cydweithredu.

## Llywodraethu

Bydd y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn goruchwylio Addewid Cymru Gyfan.

Maent yn gyfrifol ac yn atebol am sicrhau bod eu Penaethiaid Gwasanaethau Plant, Adnoddau Dynol a Thimau Comisiynu a Gweithredu yn gweithredu Addewid Cymru Gyfan.

Yn ysbryd yr addewid hon, os oes gan unrhyw Gyfarwyddwr bryder am y defnydd o staff asiantaeth gan Awdurdod Lleol arall yng Nghymru, mewn perthynas â'r egwyddorion yn yr addewid hon, yna byddant yn gofyn i'w Penaethiaid Gwasanaethau Plant gysylltu â'u cymheiriaid yn anffurfiol i ddatrys y mater.

Os na fydd eu pryderon yn cael eu datrys, yna bydd y Cyfarwyddwr yn cysylltu â'u Cyfarwyddwr cywerth i geisio datrys y mater.

Os oes yna bryder o hyd, rhaid i'r Cyfarwyddwr hysbysu'r Tîm Adnoddau Canolog. Bydd hefyd yn ceisio datrys y mater trwy broses o drafod agored yn fforwm misol y Cyfarwyddwyr. Os na ellir datrys y mater yn y cyfarfod hwn, yna bydd yn cael ei uwch-gyfeirio at Lywydd ADSS Cymru i geisio datrys y mater.

Bydd Cyfarwyddwyr ADSS Cymru yn cael diweddariad chwarterol ysgrifenedig am gynnydd yr Addewid, a bydd hyn hefyd yn cael ei drafod yn fforwm y Cyfarwyddwyr a fforwm Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan.

## Y Tîm Adnoddau Canolog

Er mwyn cefnogi Addewid Cymru Gyfan, sefydlwyd Tîm Adnoddau Canolog.

O 1 Ebrill 24 bydd y Tîm Adnoddau Canolog wedi'i leoli yn Uned Fusnes ADSS.  Bydd y maes gwaith hwn yn rhan o bortffolio Cyfarwyddwr Arweiniol Gweithlu ADSS Cymru.

Bydd y tîm yn gyfrifol am:

- Ymgysylltu, cefnogi a monitro gweithgarwch Awdurdodau Lleol ac asiantaethau.
- Nodi unrhyw risgiau a chynghori os yw'r addewid wedi cael ei thorri.
- Ymgysylltu â phob Awdurdod Lleol er mwyn casglu data a'u dadansoddi.
- Rhoi gwybodaeth reoli i Gyfarwyddwyr ADSS Cymru.

# Adran 2 – Egwyddorion Allweddol

## Gweithredu Addewid Cymru Gyfan

Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn:

- Ymrwymo i barhau i weithio o fewn y cyfraddau tâl ar gyfer gweithwyr asiantaeth newydd ac egwyddorion Addewid Cymru Gyfan o 1 Mai 2024.
- Dod â gweddill y gweithwyr asiantaeth sydd ar gyfraddau sy'n uwch na chyfraddau tâl Addewid newydd Cymru Gyfan yn ôl at y cyfraddau tâl newydd cyn gynted â phosibl. Bydd angen cynllun pontio unigol manwl i gefnogi hyn a bydd y cynllun yn cael ei lunio gyda'r holl randdeiliaid.

O 1 Mai 2024, bydd gan bob awdurdod lleol swyddog enwebedig a fydd yn Bwynt Cyswllt penodol ar gyfer darparwyr sy’n asiantaethau. Bydd cyfathrebu gan asiantaethau yn cael ei sianelu drwy'r Swyddogion hyn.

Datblygwyd cynllun pontio ar gyfer dau awdurdod lleol penodol y mae arnynt angen rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol wrth weithredu'r Addewid.

## Talu Gweithwyr Cymdeithasol Plant sy’n Gweithio i Asiantaeth

Bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn:

a) Sicrhau nad yw Gweithwyr Cymdeithasol asiantaeth yn cael cyfraddau uwch na'r rhai a nodir yn ***Atodiad 1: Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan*.** Ni ddylid ychwanegu unrhyw lwfansau ychwanegol (fel teithio neu lety) at y cyfraddau tâl hyn.

b) Gweithio gyda'r Tîm Adnoddau Canolog i adolygu'r cyfraddau tâl a amlinellir yn ***Atodiad 1: Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan*** yn flynyddol, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwyr eraill.

c) Gweithio ar y cyd ag asiantaethau i sicrhau bod teitl rôl a chyfradd tâl penodedig staff asiantaeth yn adlewyrchu profiad perthnasol pob gweithiwr, a’u bod yn cyd-fynd â'r categorïau Gweithwyr Cymdeithasol Plant cofrestredig a nodir yn **Adran 1**.

d) Cyfarwyddo asiantaethau na ddylent hysbysebu unrhyw rolau gydag Awdurdodau Lleol â chyfraddau tâl uwch na'r cyfraddau tâl a nodir yn ***Atodiad 1: Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan*.** Adroddir am unrhyw fethiant i gydymffurfio i'r Tîm Adnoddau Canolog.

## Gweithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso

Gan gydnabod ei bod yn bwysig i Weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso gael profiad ymarferol wrth barhau i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol, ni fydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn caniatáu i Weithwyr Cymdeithasol Plant asiantaeth sydd â llai na thair blynedd o brofiad ar ôl ennill eu cymhwyster i gael eu defnyddio, waeth beth fo'u llwybr i'r proffesiwn.

## Gweithwyr Prosiect

Ni fydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio defnyddio Gweithwyr Cymdeithasol Plant asiantaeth fel gweithwyr 'prosiect' neu 'barasiwt' os oes ganddynt achosion.

Ni fydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn defnyddio'r disgrifiadau hyn nac unrhyw dermau tebyg eraill i greu unrhyw rolau Gweithwyr Cymdeithasol Plant sy'n gweithio ar achosion y

bernir nad ydynt yn dod o fewn **y categorïau Gweithiwr Cymdeithasol Plant cofrestredig a nodir yn Adran 1.**

## Recriwtio Staff Parhaol

Mae Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno i:

- Beidio â defnyddio gweithwyr asiantaeth sydd wedi gadael contract parhaol Awdurdod Lleol yng Nghymru am o leiaf 6 mis ar ôl eu diwrnod olaf yn y swydd. Bydd y Tîm Adnoddau Canolog yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gasglu data perthnasol i fonitro'r elfen hon. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i staff parhaol sy'n symud i rolau parhaol mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Bydd gweithwyr cymdeithasol y dilëwyd eu swydd barhaol wedi'u heithrio rhag y gofyniad hwn.

## Gwiriadau Cyn Aseinio

**Geirda a rhestr wirio ar gyfer aseinio**

Bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn:

- Sicrhau bod pob asiantaeth yn mabwysiadu ***Atodiad 2: Templed Geirda Cymru Gyfan*** ac yn sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'u proses gydymffurfio arferol.
- Sicrhau bod o leiaf dau eirda, gan ddau sefydliad gwahanol, sy'n dangos 3 blynedd o brofiad ar ôl cymhwyso, yn cael eu rhoi gan yr asiantaethau, drwy ddefnyddio **Atodiad 2: Templed Geirda Cymru Gyfan,** cyn lleoli.
- Sicrhau bod unrhyw gais am eirda gan asiantaethau ynghylch gweithiwr asiantaeth presennol / blaenorol, yn cael ei gwblhau gan Adnoddau Dynol neu reolwr parhaol o fewn Gwasanaethau Plant. Mae'n bwysig nad yw gweithiwr asiantaeth a allai fod yn cyflenwi yn rôl Arweinydd Tîm neu rôl Reoli yn gwneud hyn. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, yna mae'n bwysig bod y templed a lenwir yn cael ei awdurdodi gan uwch-reolwr parhaol, yn unol â pholisi lleol.
- Mabwysiadu ***Atodiad 3: Rhestr Wirio Cyn Aseinio Cymru Gyfan ar gyfer Asiantaethau.*** Bydd hyn yn sicrhau bod gweithwyr asiantaeth yn ymuno yn unol ag ***Atodiad 1: Cyfraddau Tâl Cymru Gyfan*** a'r **categorïau Gweithiwr Cymdeithasol Plant cofrestredig a nodir yn Adran 1.**

**Ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi**

Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno i:

a) Weithio gyda'r Tîm Adnoddau Canolog i gynnal galwadau cynhadledd ar-lein gyda'r gadwyn gyflenwi o asiantaethau i sicrhau bod anghenion a disgwyliadau ar gyfer rolau yn cael eu deall yn llawn. Bydd disgwyl i asiantaethau gadw’r wybodaeth hon a’i rhannu gyda'u staff i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yn cael ei ddal a'i ddefnyddio mewn gweithgareddau recriwtio yn y dyfodol.

b) Gweithio gyda'r Tîm Adnoddau Canolog i sicrhau bod unrhyw asiantaeth y mae un Awdurdod Lleol yn barnu’n gyson ei bod yn methu â chydymffurfio, ddim yn cael ei defnyddio gan bob Awdurdod Lleol arall i ddod o hyd i weithwyr asiantaeth.

## Gwiriadau Perfformiad ac Ansawdd

Mae sicrhau ansawdd gweithwyr asiantaeth yn gyfrifoldeb a rennir rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Asiantaeth Recriwtio berthnasol.

Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno i:

- Sicrhau bod unrhyw faterion perfformiad yn cael eu rheoli’n brydlon. Bydd hyn yn golygu rhoi gwybod i'r asiantaeth am unrhyw bryderon yn ogystal â chymryd unrhyw gamau perthnasol, gan gynnwys rhoi cymorth ychwanegol. Pan fydd angen cymorth ychwanegol sylweddol ar weithiwr, bydd yr asiantaeth yn darparu’r cymorth hwn a bydd y canlyniad yn cael ei gyfleu i'r Awdurdod Lleol.
- Sicrhau bod y Tîm Adnoddau Canolog yn cael gwybod am unrhyw weithiwr asiantaeth y mae ei gontract wedi dod i ben oherwydd pryderon am berfformiad.

## Cyfnod Rhybudd i Weithwyr Asiantaeth

Er mwyn cydymffurfio â'n dyletswydd i sicrhau parhad yn y gofal, bydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i Weithwyr Cymdeithasol asiantaeth weithio cyfnod rhybudd o 4 wythnos, o leiaf. Hynny yw, bydd gofyn iddynt i barhau i weithio am 4 wythnos ar ôl iddynt roi rhybudd o'u bwriad i derfynu eu trefniant i'r asiantaeth sy’n eu darparu.

Bydd hwn yn drefniant cilyddol [oni bai bod camymddwyn difrifol wedi bod] rhwng gweithwyr asiantaeth, asiantaethau ac Awdurdodau Lleol.






# Rhannu data i wella datblygiad gweithlu'r dyfodol

Mae Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cytuno (yn unol â Deddf Diogelu Data 2018) i:

- Gyfrannu at adroddiadau, arolygon ac ymarferion casglu data drwy ymateb yn brydlon, yn gywir ac mewn ffordd gynhwysfawr i geisiadau gan y Tîm Adnoddau Canolog, fel bod gwybodaeth fonitro gywir a dibynadwy ar gael i bob llofnodwr yng Nghyfarfod Cyfarwyddwyr ADSS Cymru a Chyfarfod Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan.
- Parhau i ddarparu data cywir a chyflawn yn rheolaidd ar gyfer Y Tîm Adnoddau Canolog.
- Bydd y protocolau rhannu data priodol yn eu lle rhwng ADSS Cymru a'r Awdurdodau Lleol.

**Rydyn ni, sydd wedi llofnodi isod, yn cefnogi telerau Addewid Cymru Gyfan ac yn ymrwymo iddynt [i'w lofnodi gan bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol].**

| **Enw'r Awdurdod Lleol** | **Enw'r Cyfarwyddwr** | **Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol *[neu'r Uwch-swyddog Cyfrifol enwebedig ar gyfer Gwasanaethau Plant]*** | **Dyddiad y Llofnod** |
|---|---|---|---|
| CS Ynys Môn | Fon Roberts | | 01.05.2024 |
| CBS Blaenau Gwent | Tanya Evans | | 01.05.2024 |
| CBS Pen-y-bont ar Ogwr | Claire Marchant | | 01.05.2024 |
| CBS Caerffili | Gareth Jenkins | | 01.05.2024 |
| Cyngor Caerdydd | Sarah McGill | | 01.05.2024 |
| Cyngor Sir Gâr | Jake Morgan | | 01.05.2024 |
| CS Ceredigion | Audrey Somerton-Edwards | -------------------------- | ---------------- |
| CBS Conwy | Jenny Williams | | 01.05.2024 |
| CS Ddinbych | Nicola Stubbins | | 01.05.2024 |
| CS y Fflint | Neil Ayling | | 01.05.2024 |
| Cyngor Gwynedd | Dylan Owen | | 01.05.2024 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| CBS Merthyr Tudful | Lisa Curtis- Jones |  | 01.05.2024 |
| CS Fynwy | Jane Rogers |  | 01.05.2024 |
| CBS Castell Nedd Port Talbot | Andrew Jarrett |  | 01.05.2024 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | Sally Jenkins |  | 01.05.2024 |
| CS Penfro | Michael Gray |  | 01.05.2024 |
| CS Powys | Nina Davies |  | 01.05.2024 |
| CBS Rhondda Cynon Taf | Neil Elliott |  | 01.05.2024 |
| Cyngor Abertawe | Dave Howes |  | 01.05.2024 |
| CBS Torfaen | Jason O'Brien |  | 01.05.2024 |
| Cyngor Bro Morgannwg | Lance Carver |  | 01.05.2024 |
| CBS Wrecsam | Alwyn Jones |  | 01.05.2024 |